

Crist – Gwyddor Duw

“*Myfi yw Alfa ac Omega, medd yr Arglwydd Dduw.*” (adn. 8)

Beth am ddarllen Datguddiad 1:1–8 ac yna myfyrio

Cyn inni adael stori Ruth a symud ymlaen at agweddau eraill o’n thema, fe oedwn i wneud y pwynt canolog yma eto: er mor hyfryd ydy stori Ruth, nid dyna’r stori gyfan. Mae’r stori gyfan yn sôn am y Meseia – yr un a ddisgrifir fel ‘Alffa ac Omega’ yn ein testun heddiw. Alfa ac Omega, fel y gwyddoch rwy’n siŵr, ydy llythrennau cyntaf ac olaf yr wyddor Roeg.

Beth amser yn ôl deuthum ar draws y dyfyniad yma: “Crist yw’r wyddor drwy’r hon mae Duw yn mynd ati i lunio pob brawddeg, pob paragraff, a phob pennod o’i stori iachawdwriaeth.” Cofiaf roi bloedd wrthyf fy hun. “Yn wir!” meddwn. Fel y bu inni gofnodi o’r blaen, mae pob ffordd yn yr Hen Destament yn cyfarfod ynddo ef a phob ffordd yn y Testament Newydd yn ymddangos ohono Ef. Mae popeth yn y Beibl yn troi o’i gwmpas. Ychydig a feddylodd y gwagedd a weddiodd ar i Ruth fod “fel Rachel a Lea” (Ruth 4:11) y byddai tref fechan Bethlehem yn cael ei gosod ym mhrif ffrwd bwriadau rhyfeddol Duw ac yn dod yn fan geni yr Iachawdwr ei hun. Dyma un o’r ffyrdd oedd yn arwain ato ef.

At Iesu Grist mae’r stori a gofnodir yn Llyfr Ruth yn ein harwain yn y pen draw. Er mai Ruth, Naomi a Boas oedd y rhai a gymerodd ran, oherwydd eu perthynas â Iesu Grist mae yna arwyddocâd i’r rhannau hynny. Mae hi’r un fath gyda chi a fi. Efallai’n wir bod ein bywydau’n ddigon diddorol, ond yr hyn sy’n eu gwneud nhw’n arwyddocaol ydy pan maen nhw, trwy ein perthynas efo Iesu Grist, yn cael eu gwau i mewn i’w stori ef. Gosodir ein henwau ar goeden deuluol Crist – nid cyn ei ddod, wrth gwrs, ond yn sgil ei ddod.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 9:23–26;

Eff. 2:11–19

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Duw yn ein galw’n bobl iddo, y rhai nad ydyn nhw’n bobl iddo?
2. Sut y daethpwyd â ni oedd ymhell i ffwrdd yn agos bellach?

Gweddi

O Dad, rwy’n plygu o dy flaen eto gyda diolch yn llenwi ’nghalon fy mod i, a oeddwn gynt ar y tu fas, trwy aberth dy Fab drosof ar y groes, bellach ar y tu mewn. Mae fy enw i lawr ar goeden deulu yr Iachawdwr. Bendigedig fyddo dy enw di byth mwy. Amen.